CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION MAI 21, 2019

Cyfarfod Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Llanfachreth
Nos Fawrth, Mai 21, 2019 am 7:30 o'r gloch.

Presennol Cynghorwyr: Peredur Jenkins (Cadeirydd), Mordaf Roberts, Hugh A. Evans, Meurig Ashton, Gerallt Griffith, Rhun Prys Jones, Llion Rh. Williams, Emlyn Roberts.. Hefyd Henry M. Edwards.

1. Ymddiheuriadau:

Nid oedd ymddiheuriadau.

2. Dewis Swyddogion

Cadeirydd: Peredur Jenkins.
Is Gadeirydd: Meurig Ashton.

Cynrychiolwyr ar y canlynol:
Neuadd Bentref Brithdir: Rhun Prys Jones
Neuadd Bentref Llanfachreth: Gerallt Griffith
Neuadd Bentref Rhydymain: Emlyn Roberts
Neuadd Rhydygorlan: Meurig Ashton
Un Llais Cymru (2): Peredur Jenkins, Meurig Ashton.

Croesawyd Peredur Jenkins fel Cadeirydd newydd y Cyngor. Diolchwyd Mordaf Roberts am fod yn Gadeirydd.

Penderfynwyd rhoi gwybod i'r Neuaddau pwy sy'n cynrychioli'r Cyngor ar eu Pwyllgor.

3. Datgan diddordeb.

Nid oedd neb yn datgan diddordeb.

4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Mawrth 19, 2019

Wedi cywiro 'Cofnodion 15, 2019' i ddarllen 'Cofnodion Ionawr 15, 2019' yn Eitem 8.ff.iii. cynigwyd ac eilwyd fod y cofnodion yn gywir.

5. Materion yn codi o'r cofnodion Mawrth 19, 2019

Eitem 8.c. Llythyr (20/3/2019) oddi wrth Gerallt Griffith gyda manylion gwnaethpwyd i gofrestru tir Neuadd Bentref Llanfachreth.

Penderfynwyd i Peredur Jenkins a Henry Edwards cyfarfod Guthrie Jones & Jones i gofrestru'r Neuadd a'r tir fel sy'n cael ei ddangos ar y plan yn y manylion.

Eitem 10.a. Llythyr ateb (8/4/2019) oddi wrth Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor

Gwynedd yn rhoi gwybod:

i. mae cynllun yn cael ei baratoi i rwystr diogelwch ar y rhiw Capel y Ffrwd, Llanfachreth.

ii. bydd gwaith rhwystr diogelwch rhwng Tŷ Min a Doladd, Hermon yn cael ei wneud.

iii. mae'r gwli ochr isaf i fynedfa Aran Hall, Rhydymain wedi cael sylw.

6. Gohebiaeth

a. Llythyr (19/3/2019) oddi wrth Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn rhoi gwybod bydd gwaith draenio, atgyweirio wal ac atgyweirio pont yn cael ei wneud ar lwybr ceffyl wrth Cae'r Defaid.

b. Llythyr (29/3/2019) oddi wrth Liz Saville Roberts AS yn amgáu adroddiad ar Ymgynghoriad Hedfan Isel yn ne Meirionnydd.

Anfonodd Rhun Prys Jones sylwadau ei hun ar y mater i'r AS.

c. Llythyr (31/3/2019) oddi wrth Karen Glyn Goswell, Ystumgwadnaeth, Llanfachreth yn dymuno fod yn aelod o'r Cyngor.

Penderfynwyd derbyn Karen Glyn Goswell yn aelod o'r Cyngor.

ch. Llythyr (9/4/2019) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am ddigwyddiad ar y cyd rhwng Un Llais Cymru / SLCC (Society Of Local Council Clerks) bydd yn cael ei gynnal yn Stadiwm Liberty, Abertawe ar 15 Mai 2019. Mae'r cyfarfod i Gynghorwyr a Chlercod.

d. Llythyr (11/4/2019 oddi wrth Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, Cyngor Gwynedd. Mae'n cynwys Hysbysiad o Gais Deddf Trwyddedu 2013 - Trwydded Eiddo – Tyn y Groes Hotel, Ganllwyd. Os mae sylwadau maent eu hangen erbyn 9/5/2019.

dd. Llythyr (16/4/2019) oddi wrth Un Llais Cymru yn croesawu ni yn aelod. Amgáu mae ffurflen sydd angen dau gynrychiolydd i gynrychioli'r Cyngor yng nghyfarfodydd chwarterol Pwyllgor Ardal Un Llais Cymru.

Penderfynwyd i Peredur Jenkins a Meurig Ashton fod y cynrychiolwyr.

e. Llythyr (3/5/2019) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod cynhelir Pwyllgor Ardal Meirionnydd yn y Llyfrgell Rydd, Dolgellau ar ddydd Mercher, Mai 22 am 7.00yh. Amgáu mae'r Agenda a Chofnodion Cyfarfod Pwyllgor Ardal Meirionnydd cynhaliwyd yn Chwefror 2019, a Chofnodion Cyfarfod Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol a gynhalwyd ar Faes y Sioe Frenhinol, Llanfair ym Muallt ym mis Mawrth 2019.

f. Llythyr (2/5/2019) oddi wrth Addysg, Cyngor Gwynedd. Maent angen mwy o gynrychiolwyr ar Banel Apêl Mynediad ac ar Banel Apêl Gwaharddiad Disgyblion. Maent angen enwebiadau gan unigolion lleyg a chan lywodraethwyr ysgolion. Os mae gan aelodau ddiddordeb rhowch wybod i melerimairgriffith@gwynedd.gov.uk

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Cais cynllunio NP5/54/130D. Adeiladu adeilad amaethyddol ynghyd a gwaith peirianyddol cysylltiedig (Cais Diwygiedig). Garth Uchaf, Brithdir. LL40 2SA
Penderfynwyd cefnogi'r cais (1/4/2019).

b. Cais cynllunio NP5/54/16T. Codi adeilad amaethyddol Newydd (amnewidiad). Llwyn-yr-helm, Brithdir.
Penderfynwyd cefnogi'r cais (20/4/2019).

c. Cais cynllunio NP5/54/568. Codi estyniad unllawr ar yr ochr. Garth Wnion, Brithdir.
Penderfynwyd cefnogi'r cais.

8. Materion Ariannol

a. Llythyr (18/3/2019) oddi wrth Eisteddfod Gadeiriol Llanfachreth yn diolch am ein rhodd o £200.

b. Llythyr (18/3/2019) oddi wrth Clwb Ffermwyr Ifanc Dolgellau yn diolch am ein rhodd o £200.

c. Llythyr (19/3/2019) oddi wrth Rheolwr Archwilio, Cyngor Gwynedd eisiau gwybod pryd fydd ein cyfrifon a'r dogfennau perthnasol ar gael ar gyfer eu harchwilio.

Rhoddwyd gwybod (4/4/2019) iddynt bydd ein cyfrifon a'r dogfennau perthnasol ar gyfer eu harchwilio ar gael wythnos wedi ein cyfarfod.
ch. Bil (20/3/2019) Treth Annomestig Cenedlaethol ar gyfer 2019/20 tuag at Public Convenience Rhydymain oddi wrth Cyngor Gwynedd. Does dim tal am y cyfnod.

d. Llythyr (28/3/2019) a Ffurflen Flynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019 oddi wrth BDO LLP (Archwiliwr Allanol). Angen cwblhau'r ffurflen flynyddol a gwybodaeth sydd ei angen erbyn Gorffennaf 1.

Mae angen i'r Swyddog Ariannol â Chyfrifoldeb (RFO) ardystio'r Ffurflen Flynyddol erbyn Mehefin 30.
Mae angen arddangos yr hysbysiad archwilio mewn lle amlwg ac ar ein gwefan cyn Mehefin 16 a'i arddangos hyd at Orffennaf 1.

Maent angen:
Cysoniad banc ar Fawrth 31 2018.
Esboniad am amrywiannau rhwng cyfrifon 2018-19 a 2018-17 yn Ffurflen Flynyddol

2018-19.
Esboniad o unrhyw wahaniaethau rhwng cyfrifon 2017-18 a nodwyd ar Ffurflen Flynyddol 2018-19 a chyfrifon 2017-18 a nodwyd ar Ffurflen Flynyddol 2017-18.
Ffotograff yn dangos yr hysbysiad archwilio wedi cael ei arddangos mewn lle amlwg.
Rhestr o bwyllgorau a sefydlwyd gan y corff.
Cylch gorchwyl pob pwyllgor.
Rheolau sefydlog a rheoliadau ariannol (neu eu cyfwerth) y corff.
Ar gyfer yr holl gontractau a ddyfarnwyd yn 2018-19, tystiolaeth bod y corff wedi cydymffurfio â'i reolau sefydlog e.e. copi o'r hysbyseb, adroddiadau i'r corff a chofnodion yn cymeradwyo dyfarno'r contract.

Arwyddodd y Cadeirydd y Ffurflen Flynyddol ac archwilwyd y ffurflen gan yr aelodau.

Amgáu mae llythyr (Mawrth 2019) oddi wrth Swyddfa Archwilio Cymru yn rhoi gwybod fe godwyd gormod mewn ffioedd ar lawer o gynghorau gan BDO am archwiliadau 2016-17 a 2017-18 o ddeutu £10. Roedd hyn oherwydd camgymeriad gweinyddol gan BDO. Bydd ad-daliad yn cael ei roi ar y ffi a godir am archwiliad 2018-19.

dd. Anfonwyd copi o Gyfrifon Cyngor Cymuned Brithdir a Llanfachreth 2018 – 2019 i'r aelodau.
Penderfynwyd derbyn yr adroddiad.

e. Llythyr (27/3/2019) oddi wrth HSBC, Small Business Banking (HSBC Safeguard). Maent angen diweddaru a chadarnhau manylion ein sefydliad ac angen y wybodaeth cyn 26/6/2019.

Fel roedd angen, rhoddwyd galwad ffôn iddynt (1/4/2019) i roi y wybodaeth roeddynt ei angen gan gynwys enw Peredur Jenkins fel aelod.

Derbyniwyd e-bost ar 2/2/2019 gyda manylion beth i'w wneud.. Rhoddwyd y wybodaeth iddynt

f. Llythyr (15/4/2019) oddi wrth Gwasanaeth Archwilio Mewnol, Cyngor Gwynedd yn cadarnhau ei benodi fel Archwilydd Mewnol.

ff. Llythyr (16/4/2019) oddi wrth Un Llais Cymru gyda chanllawiau i gynorthwyo Clercod o'r broses i dalu lwfansau i Gynghorwyr yn ol Panel Annibynnol Cymru. Mae ymoliadau yn cael ei wneud os mae'r lwfans £150 yn rhydd o unrhyw dreth.

g. Llythyr (25/4/2019) oddi wrth Un Llais Cymru gyda ffurflen i'r aelodau ei ddefnyddio i dynnu allan o dderbyn y Lwfans Cynghorwyr.

h. Llythyr (24/4/2019) oddi wrth Canolfan Therapi Plant Cymru. Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror, 'Cais am Nawdd'.

i. Dogfennau (19/4/2019) polisi yswiriant y Cyngor oddi wrth Zurich am y cyfnod 01/6/2019 i 31/5/2020. Y tâl i'w adnewyddu yw £537.81. (Tal flwyddyn ddiwethaf oedd £531.10).

Penderfynwyd talu'r bil.

j. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29 Ebrill, 2019: £1,138.75.

l. Balans yn y banc ar 29 Ebrill, 2019: £1,670.75.

9. Adroddiad Cynghorydd Peredur Jenkins

Nid oedd adroddiad.

10. Unrhyw fater arall

a. Cafwyd cyfarfod (22/3/2019) yn Swyddfa Priffyrdd, Penarlag ynglŷn â gwasanaeth halen Cyngor Gwynedd. Yn bresennol oedd Mr Adrian W. Williams a Mr Steffan Jones (Adran Priffyrdd) a Peredur Jenkins, Mike Owen (Clerc Cyngor Cymuned Ganllwyd) a Henry Edwards. Wedi trafod y gwasanaeth halen bydd nodiadau y cyfarfod ar gael a bydd map wedi ei baratoi yn dangos lleoliad y biniau halen gan gynnwys rhif y biniau.

Derbyniwyd (8/4/2019) map yn dangos llwybrau blaenoriaeth gyntaf mewn coch, ail flaenoriaeth mewn du, a lleoliad biniau halen gyda dot gwyrdd.

b. Penderfynwyd i Peredur Jenkins gwneud ymoliadau gyda Priffyrdd ar faterion codwyd gan yr aelodau sef:

1. Gordyfiant ar y ffordd rhwng Garreg Fawr a Bontnewydd h.y. rhwng y Gelli a Phant Ebolion cyn y troad i Ddolgellau. Mae'n creu rhwystr i gerbydau uchel fel bysus.

2. Beth yw'r drefn i sicrhau bod y binniau halen yn llawn cyn y gaeaf.

3. Gordyfiant coed/llwyni ar gyffordd A494 / Ysgol yn rhwystr i welediad clir tuag at y dwyrain

4. Nid yw'r ffens rhwng y maes parcio gyferbyn â'r ysgol a'r afon yn ddiogel.

5. Angen symud bin halen wrth Penrhiw, Rhydymain i riw Hafod Owen, Hermon.

6. Angen arweiniad i glirio hwyneb wal Sŵn yr Afon sydd wedi disgyn i'r pafin

7. Mae cwter sydd wrth fynedfa Tyddynllywarch wedi cau ac angen ei agor.

c. Penderfynwyd i'r aelodau cwblhau ffurflen i roi manylion o faterion bydd angen sylw.